# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)18-09**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 16 Mehefin 2009

**Amser:** 08.30

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod y 4ydd Llawr, yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, y Llywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

Nick Bourne, y Ceidwadwyr Cymreig

Peter Black, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Aled Eirug, Ymgynghorwr Cyfansoddiadol

Sulafa Halstead, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau

Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth

Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

1.1 Dywedodd y Llywydd ei fod wedi cael ymddiheuriadau gan Alun Cairns.  Croesawodd Nick Bourne, a oedd yn dirprwyo ar ei ran, yn unol â Rheol Sefydlog 10.42.

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)17-08 (Cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 9 Mehefin 2009**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, cânt eu cyfieithu yn barod i gael eu cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)18-09(p1)**

3.1 Dywedodd Arweinydd y Tŷ y byddai'r datganiadau a ganlyn yn cael eu gwneud yn ystod Cyfarfod Llawn dydd Mawrth:

Datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y frech goch; a

Datganiad deddfwriaethol gan y Gweinidog dros Dreftadaeth ynghylch Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Diwylliant a Meysydd Eraill) 2009.

3.2 Nododd y Pwyllgor na fyddai'r cyfnod pleidleisio yn digwydd cyn 5pm ddydd Mawrth a dydd Mercher.

3.3 Nododd y Pwyllgor drefn y busnes ar gyfer 16 ac 17 Mehefin 2009.

**Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)18-09(p2)**

3.4 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth am y tair wythnos nesaf.

**Amserlen Busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth am y 3 wythnos nesaf - BC(3)18-09(p3)**

3.5 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu'r dadleuon a ganlyn:

Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 23.57 ar y Mesur arfaethedig Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru);

Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 23.58 i gymeradwyo'r Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru); a

Dadl ar Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig Joyce Watson ynghylch Arwynebau Caled.

3.6 Nododd Nick Bourne y byddai'r eitemau ychwanegol hyn yn cael effaith ar yr amser a fyddai ar gael i'r wrthblaid. Dywedodd y Llywydd fod y Pwyllgor Busnes wedi cytuno neilltuo o leiaf un awr yr wythnos ar gyfer dadleuon yr wrthblaid.

3.7 Cyfeiriodd Nick Bourne at faint o amser sy'n cael ei neilltuo ar gyfer cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a dywedodd nad oedd y dyraniad cyfan byth yn cael ei ddefnyddio. Gofynnodd am ystyried newid y dyraniad. Nodwyd mai dynodol yn unig yw'r amseriad ac mai mater i'r Llywodraeth yw gwneud unrhyw newidiadau.

3.8 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn Busnes y Cynulliad.

3.9 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn Busnes heblaw Busnes y Llywodraeth.

**4. Deddfwriaeth**

**Papur ar Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Diwylliant a Meysydd Eraill) 2009 - BC(3)17-09(p4a)**
**Amserlen Ddarluniadol - BC(3)17-09(p4b)**

4.1 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Diwylliant a Meysydd Eraill) 2009 at Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 4, gan osod terfyn amser o 6 Tachwedd 2009 i gyflwyno adroddiad.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**